OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1549 (Cy. 158)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, Ynys Môn i Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed	*12 Mehefin 2014*
Yn dod i rym	*21 Mehefin 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (y cyfeirir ati ym wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, dehongli a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mehefin 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, Ynys Môn i Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 16:00 o'r gloch ar 21 Mehefin 2014 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du yn sir Ynys Môn i Gyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon yn sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar naill ai’r cerbytffyrdd tua’r gorllewin neu’r cerbytffyrdd tua’r dwyrain o’r darnau o’r gefnffordd a’r darnau o’r slipffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Tra gwaherddir cerbydau gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ond yn unol ag erthygl 11, ni chânt eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r gorllewin.

(2) Tra gwaherddir cerbydau gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ond yn unol ag erthygl 11, ni chânt eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin mewn unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r dwyrain.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â’i led yn 3.25 metr neu’n fwy fynd ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na pheri na chaniatáu reidio unrhyw feic pedal yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Schedule 5.

Atal

10. Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (yr A5) (Llanfair Pwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 Milltir yr Awr) 1983**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod yr adegau, ac i'r graddau, y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 9 mewn grym.

Cymhwyso

11. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

12. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig y 12 Mehefin 2014

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.
(3) O.S.1983/1772

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau dros dro yn ystod gwrthlif

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 70 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Y darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 3.5 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du hyd at bwynt 330 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.
Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân.

ATODLEN 2
Gwahardd cerbydau dros dro ar gyfer cau ffyrdd dros nos

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl hyd at ddiwedd y trwyn lle mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl a Chyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du hyd at ddiwedd y trwyn lle mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r

slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân hyd at ddiwedd y trwyn lle mae'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin yn ymuno â phrif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

ATODLEN 3
Gwahardd cerbydau dros dro ar gyfer cau ffyrdd am gyfnodau byr

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl hyd at ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du hyd at ddiwedd y trwyn lle mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth gan gynnwys y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl a'r slipffordd ymuno tua' dwyrain yng Nghyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân.

ATODLEN 4
Gwaharddiad dros dro ar gerbydau sy'n lletach na 3.25 metr

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd y gefnffordd yng Nghyffordd 10, Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1.1 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du hyd at bwynt 330 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl.

Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân.

ATODLEN 5
Terfyn cyflymder dros dro o 40 mya

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth hyd at bwynt 1.7 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl gan gynnwys y slipffyrdd ymuno ac ymadael yng Nghyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân a Chyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl a'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 9, Cyfnewidfa Treborth.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 3.3 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du hyd at bwynt 1.3 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân gan gynnwys y slipffyrdd ymuno ac ymadael yng Nghyffordd 8, Cyfnewidfa Ael y Bowl a Chyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân.

ATODLEN 6
Gwaharddiad dros dro ar gerddwyr a beicwyr

Y darnau o gerbytffyrdd y gefnffordd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain, sy'n ymestyn o Gyffordd 8A, Cyfnewidfa Carreg Brân hyd at Gyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du.